CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
5 Hydref 2016, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng E Williams, N Jones, S Hughes, A Evans, R Edwards, J Evans (Cyngor Sir), A Mummery (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D I Roberts, G Roberts, R Davies, M Jones (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng N Jones. Dechreuwyd y cyfarfod gyda sgwrs gan Mr John Roberts am Tai Elusendai Penmynydd. Mae Mr Roberts yn eistedd ar Bwrdd yr Ymddiriedolaeth Elusennol. Dywedodd Mr Roberts bod y tai yn wag ers rhai blynyddoedd am bod neb eisio tai cymdeithasol. Erbyn hyn, mae'r tai wedi'i condemnio. Bydd angen swm mawr o arian i moderneiddo y tai a mae'r bwrdd wedi meddwl am gwerthu yr eiddo, neu trosi i gartrefi gwyliau. Nid yw'r Bwrdd gyda ddigon o arian. Mae'r eiddo wedi eu cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau a Cadw. Mae Cadw wedi penderfynu gadael yr eiddo fel y maent yn sefyll. Penderfyniwyd cynnig gwahoddiad i Cadw i siarad gyda'r Cyngor Cymuned
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 7 Medi 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon** - Cynigodd Cyng N Jones trefnu cyfarfod trwy gysylltu a Dafydd Rowlands, Cyngor Sir
4.2	**Gor-yrru Penmynydd** - mewn llaw (bydd y Clerc yn atgoffa y Cyngor Sir)
4.3	**Cyflwr y coed ar tir y tai elusendai a dyfodol yr eglwys** - Gweler 1
4.4	**Maes chwarae** - Nid yw'r Clerc wedi gallu cael pris arall am rhoi'r giat a ffens yn ôl yn eu lle. Cytunwyd i symud ymlaen gyda pris Robin Roberts £518.00
4.5	**Hysbysffwrdd Star** - Mae y Clerc wedi gwneud cais trwy'r yswiriant ac yn disgwyl ymateb. Cynigodd Cyng N Jones siarad gyda swyddogion y Vintage Rally i cael caniatad i osod yr hysbysffwrdd newydd wrth ymyl giat y tir
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	41C99U cais llawn i godi modurdy preifat yn 2 Bryn Gof, Star - dim sylwadau
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	BDO Rheolau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 - Llythyur a hysbyseb yn cadarnhau nid yw yr archwiliad wedi'i orffen a dim barn archwilio wedi'i chyhoeddi cyn 30.09.16 (y dyddiad statudol). Yn y cyfamser, mae'r adroddiad wedi cyraedd
6.2	Comisiwn ffiniau i Gymru (gwybodaeth yn unig - cynigion cychwynnol - arolwg 2018 etholaethau seneddol yng Nghymru)
	Llofnod **Cadeirydd** **02.11.16**

8	**MATERION ARIANNOL**
8.1	Adolygiad ariannol chwarterol - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
8.2	Adroddiad yr Archwiliwr Allanol - Derbyniwyd yr adroddiad a sylwadau: Dim llythyr penodi'r archwiliwr mewnol, Rheolau mewnol, penodiad yr archwiliwr mewnol, asedau
9	**MATERION ERAILL**
9.1	Mynwent Gilead - Soniodd Cyng E Williams am cyflwr y fynwent a bod angen gwaith twtio. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r swyddogion
8	**Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf**
	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **02.11.16**